


TECHNEGydd CERBYDAU HGV

Adran Fflyd, Cyffordd Llandudno
Parhaol, 37 awr yr wythnos
(Oriau penodol Llun-lau 8am-4pm Gwener 8am-3.30pm)
NWFRS Gradd 07 £35,412 i £38,220 y flwyddyn



Rydym yn edrych i benodi Technegydd Cerbydau HGV i ymuno â'n Adran Fflyd. Mae'r rôl yn gyfrifol am gynnal gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio o ddydd i ddydd i gerbydau, ein peiriannau ac offer gwasanaeth tân i sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn ddiogel ac yn weithredol. Gan gynnal gorsaf waith ddiogel a glân, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar y cymhwysedd i ddiagnosisio diffygion mewn systemau mecanyddol a thrydanol i bennu dulliau atgyweirio effeithiol sydd eu hangen.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfathrebbwr da, gyda sgiliau trefnu methodaidd ar gyfer cynllunio llwythi gwaith i fodloni dyddiadau cau a gofynion rheoli amser. Gan weithio fel rhan o dîm o dechnegwyr aml-sgil, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn darparu cymorth cynnal a chadw brys wrth gefn y tu allan i oriau fel rhan o system rota (yn amodol ar lwfans wrth gefn).

Bydd angen i ymgeiswyr ddangos (gyda thystiolaeth) y sgiliau, fel yr amlinellir yn y disgrifiad swydd a manyleb person gan gynnwys y gofynion hanfodol canlynol:

- Tystysgrif Crefft Lefel 3 City and Guilds mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Trwm neu gyfwerth.
- Gwybodaeth a phrofiad o weithio mewn amgylchedd cynnal a chadw ac atgyweirio cerbydau masnachol.
- Meddu ar drwydded yrru lawn y DU.
- Meddu ar drwydded yrru LGV Categori C, neu ar hyn o bryd yn gweithio tuag at y gallu i'w chwblhau o fewn y cyfnod prawf.
- Dal neu weithio tuag at statws Tystysgrif Cymhwysedd IRTEC i Meistr Technegydd, gyda'r gallu i'w gynnal ar ôl ei gyflawni.
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac yn annibynnol, gan ddefnyddio menter eich hun.
- Y gallu i reoli amser eich hun a blaenoriaethu llwyth gwaith i gwrdd â dyddiadau cau.
- Gallu cynnal sgwrs syml ar Lefel 2 Cymraeg – os nad yw'n cael ei ddangos eisoes ar gais, mae hyn i'w gyflawni o fewn cyfnod prawf o 12 mis, gyda chymorth wedi'i ddarparu fel y bo'n briodol.
- Penodiad yn amodol ar Wiriad DBS Safonol a geiradaon boddhaol.

Mae gweithdy'r adran Fflyd wedi'i leoli yng Nghyffordd Llandudno. Mae'r rôl technegydd cerbydau hefyd yn gofyn am hyblygrwydd i deithio i wahanol leoliadau ledled Gogledd Cymru ac mae'n cynnwys gwaith sy'n cael ei wneud mewn amodau garw.

Mae rhagor o wybodaeth am y rôl, gan gynnwys disgrifiad swydd a phhecyn cais, ar gael ar wefan Tân ac Achub Gogledd Cymru neu drwy e-bostio: recruitment@northwalesfire.llyw.cymru

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 12.00 hanner dydd,

Dydd Gwener 5 Rhagfyr 2025

Gyda'r cyfweiliadau yn cael eu cynnal ddydd Mawrth 16 Rhagfyr 2025

Bydd y dyddiad cau yn cael ei gadw'n llym ac ni fydd unrhyw eithriadau yn berthnasol.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwngwng i gyfle cyfartal i'r holl staff ac anogir ceisiadau gan unigolion waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau a byddwn yn ymateb yn eich iaith o'ch dewis yn ddi-oed. Bydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.